MATTHEWS, EDWARD (1813 - 1892), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur

Enw: Edward Matthews
Dyddiad geni: 1813
Dyddiad marw: 1892
Priod: Matthews
Rhiant: Anne Matthews
Rhiant: Thomas Matthews
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 13 Mai 1813, yn New Barn ger Sain Tathan, Bro Morgannwg, mab Thomas ac Anne Matthews. Chwalwyd ei gartref pan oedd yn ieuanc ac ymfudodd y tad i America. Cafodd argyhoeddiad crefyddol o dan weinidogaeth David Morris o'r Hendre. Aeth i weithio i Hirwaun yn 1827 a dechreuodd bregethu yno yn 1830. Dychwelodd i'r Fro yn 1833 gan gartrefu ym Mhen-llin yn nhy Mrs. Truman, gwraig weddw a ddaeth yn briod iddo yn 1843. Ordeiniwyd ef yn sasiwn Llangeitho, 1841; bu'n efrydydd yn Nhrefeca am dymor byr yn 1843. Aeth i fugeilio eglwys Penuel, Pontypridd, yn 1849; dychwelyd i'r Ewenni Isaf, ger Penybont-ar-Ogwr, yn 1852; symud i Gaerdydd yn 1864; trigiannu yn Nhresimwn o 1876 hyd 1883, a gorffen ei grwydro ym Mhenybont. Bu farw yno 26 Tachwedd 1892, a'i gladdu ym mynwent eglwys Nolton. Saif ei fri fel pregethwr yn uchel; dotiai'r cynulleidfaoedd ar ei arabedd yn nhafodiaith Bro Morgannwg; synnid hwy gan rym ei ddychymyg a'i arddull ddramatig, feiddgar; a dychrynid hwy gan ei floeddiadau annaearol. Ef oedd brenin y sasiwn am gyfnod hir ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd. Cyhoeddwyd cyfrol o'i bregethau dan olygiaeth D. M. Phillips yn 1927. Yr oedd yn awdur o fri hefyd. Ei waith mwyaf poblogaidd oedd *Hanes Bywyd Siencyn Penhydd*, a gyhoeddwyd yn llyfryn yn 1850. Llyfr tebyg iddo yw *George Heycock a'i Amserau*, 1867. Tynnodd lawer ar ei ddychymyg wrth eu llunio ill dau, a bu cryn ddarllen arnynt gan y werin. Ymddangosodd *Bywgraffiad Thomas Richard* yn 1863, ac yr oedd yn gyd-awdur *Cofiant J. Harris Jones*, 1886. Golygodd ddwy gyfrol o bregethau Morgan Howells yn 1858 a 1869, a dwy gyfrol o bregethau Thomas Richard yn 1866-7. Ysgrifennodd lawer i'r *Traethodydd*, *Y Drysorfa*, a'r *Cylchgrawn* - cyhoeddwyd cyfrol o'i ysgrifau dan olygiaeth W. Llywel Morgan yn 1911. Arddull ymddiddanol, gwmpasog, oedd ganddo, ond y mae crebwyll a theithi gwir lenor ar ei waith, a cheir blas ar bob peth a ysgrifennodd.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

David Glanaman Jones, *Cofiant y Parchedig Edward Matthews o Eweni gyda dyfyniadau o'i ysgrifeniadau, a dwy bregeth* (Dinbych 1893)

J. J. Morgan, *Cofiant Edward Matthews, Ewenni* (Yr Wyddgrug 1922)

Delweddau

John Thomas, Revd Edward Matthews (1813-92)

LlGC: Rev. Edward Matthews, 'Ewenny'

Gweithiau

E. Matthews, *Bywgraffiad y Parch. Thos. Richard, Abergwaen nodiadau arno fel dyn, Cristion, a phregethwr* (Abertawe 1863)

E. Matthews and J. C. Jones, *Cofiant y Parchedig J. Harris Jones, M.A., Ph.D. Trefeca* (Llanelli 1886)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 31191490

Wikidata: Q20732962

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu